

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Elinor Davies (Llanfair) a Jane Jones (Llansannan) a'u teuluoedd, yn dilyn marwolaeth eu mam, Mrs Susannah Williams. Roedd Mrs Williams yn un o aelodau hynaf yr ofalaeth, ac roedd ei gwên a'i chroeso bob amser yn ei gwneud yn bleser cwrdd â hi. Cyflwynwn y teulu oll i ofal Duw, gan hyderu y cânt adnabod ei heddwch a'i dangnefedd.
- Anfonwn ein cofion at Glyn Jones (Nantglyn) a Gwilym Roberts (Hiraethog) dreuliodd nifer o ddiwrnodau yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Cofiw'n hefyd am Amy Evans (Llanfair) a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sydd yn parhau yn yr ysbyty, ac eraill sydd wedi bod yn cael triniaeth dros yr wythnosau diwethaf. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.

I ddod

- **Rhaglen Dorcas** - Cyfarfod i ferched Llansannan, Tanyfron a Nantglyn yn Ffestri Llansannan nos Iau, Ionawr 31ain am 7.30 pryd y bydd Elinor Owen yn cyflwyno'r rhaglen i'r aelodau. Croeso i eglwysi eraill ymuno os yw hynny'n ddymuniad.
- Bydd cyfarfod i ddechrau trefnu **Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytun yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog nos Lun, Chwefror 4ydd am 6.00. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r babell hon wedi bod yn un o'r rhai prysuraf ar Faes yr Eisteddfod gan gynnig croeso a hafan i filoedd dros yr wythnos. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i'r cyfarfod.
- **Penwythnos Ieuenctid yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 12fed-15fed. Pris gwreiddiol yn £75 y plentyn a £37.50 ar gyfer ail blentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £20 i'r plentyn cyntaf o bob teulu a £10 i'r ail blentyn. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r Coleg **yn y dyddiau nesaf** i sicrhau lle.
- **Adnabod DAWN:** Sesiynau nesaf - Chwefror 26ain, Mawrth 12fed.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan www.llanw.org. Fe fyddai'n wych petasai modd i chi archebu a thalu mor fuan â phosib gan fod angen talu am y carafannau ymlaen llaw.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos Iau Dyrchafael, Mai 9fed yn Ffestri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Ionawr 2013

Darlleniad y Dydd

Mathew 6: 5-8

(BCND tud.6 / BCN: tud.5)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i'r dydd newydd yma o law ein Duw! Beth fydd gan yr Arglwydd ar ein cyfer heddiw tybed? Yn yr oll a gawn o'i law, ein braint yw trio adnabod ei ewyllys. 'Gwneler dy ewyllys' yw'r deisyfiad cyntaf yng Ngweddi'r Arglwydd ac o'r deisyfiad yma y mae pob gweddi arall yn codi. Edrychwn ymlaen at gael clywed Gair Duw heddiw - gwnawn hynny gyda chalonnau agored - a gweddiwn dros Rhodri wrth iddo agor y Gair ar 'Weddi' yn y gyfres newydd nos Sul.

O'r Bregeth ar y Mynydd y daw'r darlleniad y byddwn yn ei gyd-ddarllen heddiw. Yma cawn Iesu yn dysgu ei ddisgyblion sut i weddio a beth i'w osgoi wrth weddio. 'Peidiwch a bod fel y rhagrithwyr' meddai. Rhagrithwyr oedd y rhai oedd yn hoffi cael eu gweld yn gweddio. Gorchymyn Iesu i ni ydi i ni fynd i'r ystafell breifat yn y tŷ a gweddio yno gan wybod fod ein Tad nefol yn gwybod beth sydd arnom ei angen cyn i ni ddweud wrtho. Mae'n dda gwybod fod Duw yn ein hadnabod mor dda â hyn!

Dylai gwybod hyn am Dduw ddim ein stopio rhag gweddio ond ein gyrru ymlaen i weddio'n daer. Mae Iesu'n dysgu Gweddi'r Arglwydd i'w ddisgyblion yn syth ar ôl dweud hyn am ei Dad. Tybed sut hwyl a gafodd y disgyblion y tro cyntaf hwnnw? Pa un ohonyn nhw oedd y cyntaf i'w dysgu ar ei gof? Ioan efallai, Mathew, neu Iago? Cawsom ni ein dysgu er yn blant a phrin fod neb ohonom yn cofio'r tro cyntaf i ni gyd-weddio "Ein Tad..." Er nad ydym yn cofio'r tro cyntaf efallai, mae'n deg gofyn pryd oedd y tro diwethaf i ni ei gweddio yn yr ystafell breifat yn y tŷ? Dyma gyfle arall i ni heddiw!

Mae 'na lawer o sôn am rym gweddi. Mae yma ddirgelwch. Er cymaint y byddaf i weithiau yn dymuno gweld pethau'n newid ar ôl i mi weddio dydi'r newidiadau yma ddim fel petae nhw'n digwydd yn aml. Ydw i wedi methu newid meddwl Duw, neu a yw fy ngweddiâu yn rhy wan? Lle mae'r grym sydd mewn gweddi?

Rhan o rym gweddi ydi'r ffordd y mae Duw yn ei defnyddio i'n cael ni i ddirnad ewyllys Duw yn yr amgylchiadau a'r profiadau amrywiol a gawn. Wrth weddio 'Gwneler dy ewyllys' yr ydym yn dod i adnabod grym gweddi. Grym gweddi Crist yng Ngethsemene oedd dod â phwysigrwydd ac awdurdod ewyllys Duw i ganol y llwybr a oedd, fel y gwyddai Iesu'n dda - yn mynd i'w arwain at ei ddiodefaint a chroes Calfaria. Ewyllys Duw oedd y groes (Eseia 53: 10) ac ewyllys Duw oedd yr atgyfodiad hefyd (Actau 2: 32). Ewyllys Duw yw ein cadw ni'n ddiogel trwy'r croesau yr ydym yn eu dwyn - ein cadw'n ddiogel yn ei law am byth (Ioan 17: 24). Grym gweddi ydi'r ffordd y defnyddir hi gan ein Tad i ddod â ni i sylweddoli grym ei ewyllys Ef o'n plaid.

Anneirin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Adnabod Dawn** yn Festri Capel y Groes am 7.30.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener-Sul • **Penwythnos Plant Cynradd** yng Ngholeg y Bala. Os nad yw'n bosibl i chi fynd yno nos Wener, mae croeso i chi ymuno ar y bore Sadwrn ac aros tan y Sul. Mae nifer wedi rhoi eu henwau ond os oes mwy ohonoch am fynd, cofiwch bod rhaid archebu lle erbyn dydd Mawrth – gallwch wneud hynny trwy ffonio'r Coleg (01678 520565).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. Yn ystod yr oedfa hefyd, cawn gyfle i wrando ar Andrew Sturgess yn siarad am ei waith fel Swyddog Datblygu Banciau Bwyd Gogledd Cymru gyda'r Trussell Trust.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Yng Nghefn Meiriadog, bydd Oedfa Deulu am 10.30.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Cymdeithas Llansannan - Noson yng nghwmni Bethan Clement Davies yn y Festri am 7.30.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhaghysbys Cyfarfod Blynyddol aelodau Eglwys Unedig Llansannan nos Fawrth, Ionawr 29ain am 7.30.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes yn 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau